north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 12 EBRILL, 2019

**TEITL:** *Adroddiad am y Gofrestr Risg*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu Cofrestr Risg fanwl ar gyfer Cam Cynllunio a Datblygu Cynllun Twf Gogledd Cymru.

1.2. Caiff y Gofrestr Risg ei rheoli, ei hadolygu a'i diweddaru gan y Swyddfa Rhaglen (unwaith y bydd wedi'i sefydlu). Yn ogystal, caiff ei adolygu gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol a'r Bwrdd Uchelgais yn rheolaidd.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo'r Gofrestr Risg a darparu cyngor ac adborth ynghylch:

- Ffurf a strwythur y gofrestr risg (i sicrhau ei bod yn hwylus i'w defnyddio i'r bwrdd);
- P'un a yw'r risgiau a'r statws RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) wedi'u cynnwys yn gywir ac yn ddigonol;
- P'un a yw'r mesurau lliniaru sydd wedi'u nodi yn gymesur o ystyried y risgiau sydd wedi'u hadnabod.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae Cynllun Twf Gogledd Cymru angen Cofrestr Risg fanwl ar gyfer y cam Cynllunio a Datblygu.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r Gofrestr Risg, yn Atodiad 1, yn canolbwyntio ar risgiau'r rhaglen sy'n codi o'r rhaglen waith gychwynnol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar 1 Chwefror 2019. Mae'r Gofrestr Risg yn rhoi sylw i gyflawni'r rhaglen waith lefel uchel a'i gwaith penodol.

4.2. Mae Cais Twf Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i nifer o risgiau gwleidyddol cenedlaethol (y DU - Cymru) sy'n rhai sy'n seiliedig ar farn ac maent y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod:

### 4.2.1. Risgiau Gwleidyddol ar Lefel Genedlaethol

- Y gall y Llywodraeth gwympo yn sgil Brexit gan golli'r cyfle i gwblhau Cynllun, yn bennaf oherwydd y byddai etholiad cyffredinol yn cael ei gynnal. Y brif ffordd o liniaru risg fel hyn yw cwblhau trafodaethau a symud i Benawdau'r Telerau cyn gynted â phosib. Y prif aberth

o gwblhau cynllun yn gynnar fyddai gorfod gweithio o fewn yr amlen arian sy'n cael ei chynnig ar hyn o bryd, sef £240m.

- Mae Llywodraeth y DU yn ystyried hyn (y risg gwleidyddol o etholiad cyffredinol neu weinyddiaeth newydd) yn risg isel gan fod y Trysorlys wedi neilltuo £120m ar gyfer Cynllun Gogledd Cymru yn seiliedig ar y prosiectau/Achosion Busnes Amlinellol sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Yn ogystal, byddai cwblhau Penawdau'r Telerau yn gynnar yn 2019 yn darparu rhyw fath o ymrwymiad cytundebol i gwblhau cynllun.

**4.2.2. Risgiau o Lywodraethau fel arianwyr yn meddu ar farn wahanol**

- Mae risgiau yn codi o farn wahanol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel arianwyr ynghylch ansawdd y prosiectau. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys bod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo tra bod Llywodraeth y DU wedi mynegi peth amheuaeth ynghylch pa mor berthnasol yw prosiect fel hwn i gynllun twf. Mae Llywodraeth y DU wedi mynegi diddordeb mewn cynigion a gyflwynir gan brifysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn gweld gwerth prosiectau fel hyn a allai gael eu hariannu gan Lywodraeth y DU ond mae'n gweld risg i Lywodraeth Cymru os nad yw'r prosiectau'n cyflawni cynaliadwyedd refeniw gan mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ariannu prifysgolion yng Nghymru. Gall y rhanbarth helpu i liniaru'r risg hwn drwy hwyluso trafodaethau rhwng y ddwy lywodraeth a datblygu Achosion Busnes Amlinellol cadarn.

**4.2.3. Deddf Cymru 2017**

- Ar lefel genedlaethol, mae ymestyn Datganoli yn Neddf Cymru 2017 hefyd wedi profi i fod yn risg cymedrol i'r Cynllun yn yr ystyr ei fod wedi lleihau'r sgôp am arian gan Lywodraeth y DU oherwydd mae Cynlluniau Twf i fod i gael eu hariannu ar gyfradd o tua 50:50 gan y ddwy lywodraeth. Mae ariannu cymesur gan y ddwy lywodraeth yn profi i fod yn rhwystr i'r Cynllun ar hyn o bryd gan fod nifer o brosiectau yn fwy priodol ar gyfer arian gan Lywodraeth Cymru mewn cyd-destun datganoledig.
- Er enghraifft, mae Llywodraeth y DU wedi nodi datganoli fel rheswm pam na all fuddsoddi mewn rhai cynlluniau penodol, er enghraifft cyfanswm cost ailddatblygu Porthladd Caergybi. O safbwynt Llywodraeth Cymru, mae ei swyddogion hefyd wedi nodi datganoli fel rheswm pa na ddylai Llywodraeth y DU fuddsoddi mewn un neu ddau o gynlluniau e.e. twristiaeth.
- Caiff y rhyngweithio rhwng barnau'r llywodraeth ei gynnwys i ryw raddau yn y gofrestr rhaglenni drwy'r risgiau i gwblhau a blaenoriaethu'r portffolio o brosiectau.
- Y prif fesur lliniaru ar gyfer y risg hwn fyddai ehangu prosiectau (a/neu chwilio am un neu ddau o brosiectau ychwanegol sy'n barod i fynd) y gall Llywodraeth y DU eu hariannu.

**4.2.4. Risgiau Gwleidyddol Rhanbarthol**

- Mae cyfres o risgiau gwleidyddol rhanbarthol sy'n ymwneud â:
  - Fforddiadwyedd, lle mae partneriaid yn teimlo na allant fforddio neu ddosrannu costau'r cynllun yn deg gan gynnwys cost datblygu, rheoli a chyflawni'r rhaglen.
  - Ymgysylltu, lle gall cyflymder gwneud penderfyniadau'n rhanbarthol (ac yn genedlaethol ar lefel Cymru a'r DU) fod ar y blaen i farn leol mewn cynghorau a sefydliadau partner ac felly golli cefnogaeth un neu fwy o gynghorau neu bartneriaid.

- Caiff y rhain sylw yn y gofrestr risg yn sgil tasgau'r rhaglen, ariannu'r cynllun ac ymgysylltu/cyfathrebu.

**4.2.5. Risgiau Amserlen**

- Gall llithriad i amserlenni gael effaith wleidyddol hefyd. Gall llithriad sylweddol a chyson yn y rhaglen gael effaith andwyol ar enw da'r bwrdd a'r canfyddiad o'i gapasiti a'i allu i "gyflawni" cynllun. Bellach, mae'r rhanbarth yn gweithio i'w drydydd dyddiad targed ar gyfer Penawdau'r Telerau.
- Mae achosion llithriadau, megis materion ynghylch blaenoriaethu, wedi codi o drafodaethau a negodi dros y rhaglen. Ansawdd a chyflawnrwydd Achosion Busnes Amlinellol yn sail i asesu buddion ac effaith prosiectau arfaethedig yn y rhaglen ac maent yn llwyfan i ddatgloi buddsoddiad drwy negodi. Ymdrinnir â'r mater o ariannu a chyflawni Achosion Busnes Amlinellol o safon uchel yng nghofrestr risg y rhaglen isod.

**4.3. Crynodeb o'r Risgiau Allweddol**

4.3.1. Mae gan ddau risg statws coch:

**4.3.2. Cytuno ar Benawdau'r Telerau** erbyn 31 Gorffennaf 2019 oherwydd y tasgau y mae'n rhaid eu cwblhau i alluogi llofnodi Penawdau'r Telerau:

- Cytuno ar yr amlen ariannu a'r portffolio o brosiectau gyda'r arianwyr;
- Adolygu a diweddaru’r Achosion Busnes Amlinellol;
- Adnabod rhyng-ddibyniaethau rhwng prosiectau a mesur effaith llawn y cynllun twf.

4.3.3. **Cytuno ar Gytundeb Llywodraethu 2** oherwydd pa mor gymhleth ydyw.

- Hefyd, roedd sgôr gymharol uchel i'r risg bod y sector preifat a phartneriaid eraill yn tynnu prosiectau allan o'r cais yn ddarostyngedig i amodau economaidd cyfnewidiol o ystyried bod cryn amser cyn y bydd y cynllun wedi'i gwblhau gyda pheth sgôp am lithriadau pellach yn yr amserlenni.

4.4. Mae strategaethau lliniaru wedi'u hamlinellu yn y gofrestr risg.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Mae risgiau ariannol wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae risgiau cyfreithiol wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Mae risgiau staffio wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim wedi’u hadnabod.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Trafodwyd y Gofrestr Risg a'i chymeradwyo gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 29/03/2019.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cofrestr Risg |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

"Mae monitro risiau'r prosiect yn un o dasgau allweddol y BUE. Mae gofyn I'r Bwrdd ystyried y gofrestr a bodloni ei hyn ei fod yn cynrychioli adlewyrchiad gywir o statws risg a fod y gweithrediadau lleddfu yn cael eu cyfarch."

**ii. Pennaeth Cyllid - Corff Atebol:**

"Cadarnhaf fy mod i wedi adolygu agweddau 'Cyllid' o Gofrestr Risg y Rhaglen gyda'r awdur. Mae rhai o'r sgôrs risg yn fater o farn a dehongliad, tra mae sawl mater eto i'w gadarnhau, ond credaf fod y Gofrestr Risg yma'n adlewyrchu asesiad teg."